**Rhif: WG54643**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau statudol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar baratoi a gweithredu strategaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymatebion i Ymgynghoriad rhif **WG53675**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion ynghylch cyhoeddi Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar baratoi strategaethau lleol i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr ynghylch penodau penodol o fewn y canllawiau statudol drafft.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ar yr ymgynghoriad hwn, ac yn egluro'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried. Nid yw'n gwneud sylwadau ar ymatebion unigol. Ar ôl cyhoeddi'r crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y bwriad yw diwygio a chyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol maes o law.

## Cyd-destun yr ymgynghoriad

O dan adrannau 5 i 8 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"), mae dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi, cyhoeddi, adolygu a gweithredu strategaeth trais a cham-drin ('strategaeth leol'). Bydd yr ymgynghoriad yn cyfrannu at gyhoeddi Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar baratoi'r strategaethau hyn. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu paratoi o dan adran 15 o'r Ddeddf.

### Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am y ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

### Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: vawdasv@llyw.cymru

### Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dolen at y ddogfen ymgynghori: Newidiadau arfaethedig i ganllawiau ar gyfer strategaethau VAWDASV lleol | LLYW. CYMRU

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4
Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad: ..... 4
Ymatebion fesul cwestiwn ..... 6
Cwestiwn 1: ..... 6
Cwestiwn 2: ..... 6
Cwestiwn 3: ..... 7
Cwestiwn 4: ..... 8
Cwestiwn 5: ..... 8
Cwestiwn 6: ..... 9
Cwestiwn 7: ..... 10
Cwestiwn 8: ..... 10
Cwestiwn 9: ..... 10
Cwestiwn 10: ..... 11
Cwestiwn 11: ..... 11
Cwestiwn 12: ..... 11
Cwestiwn 13: ..... 11
Cwestiwn 14: ..... 12
Cwestiwn 15: ..... 12
Cwestiwn 16: ..... 12
Cwestiwn 17: ..... 12
Cwestiwn 18: ..... 13
Y Camau Nesaf ..... 14
Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr ..... 15

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ynghylch cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar baratoi strategaethau lleol ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Chwefror ac 1 Mai 2026. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r ddogfen ganllaw statudol ddrafft.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf y bwriedir eu cymryd.

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad:

Cafwyd 36 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

O'r rhain, daeth 17 i law drwy'r porth ar-lein a daeth 19 ymateb arall i law yn uniongyrchol drwy e-bost. Cyflwynwyd un ymateb 11 diwrnod ar ôl y dyddiad cau swyddogol, ond cafodd ei ystyried fel rhan o'r corff cyfan o ymatebion a dderbyniwyd.

| **Categori** | **Ymatebwyr** |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 8 |
| Byrddau Iechyd Lleol / Ymddiriedolaethau'r GIG | 4 |
| Heddluoedd a Sefydliadau Cyfiawnder Troseddol | 2 |
| Sefydliadau Tân ac Achub | 2 |
| Gwasanaethau'r Trydydd Sector / Arbenigol | 4 |
| Partneriaethau Rhanbarthol | 3 |
| Darparwyr Addysg | 2 |
| Comisiynwyr a Chyrff Cenedlaethol | 6 |
| Eraill | 2 |
| Dienw | 3 |
| **Cyfanswm** | **36** |

Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- Ar y cyfan, roedd cefnogaeth eang i roi sail statudol i'r canllawiau, i sicrhau cysondeb, atebolrwydd a chyfrifoldeb pob rhan o'r system wrth fynd i'r afael â thrais a cham-drin. Croesawyd pwyslais ar atal trais a cham-drin, amddiffyn unigolion, darpariaeth adfer ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.
- Galwyd am i'r broses o greu strategaethau lleol fod yn gliriach, cryfhau atebolrwydd, gwahaniaethu'n glir rhwng dyletswyddau statudol ac arferion da, ac alinio cylchoedd adolygu yn well.

- Roedd consensws cryf y dylai'r canllawiau fod yn haws eu gorfodi ac yn fwy clir ynghylch ymgorffori ystyriaethau trais a cham-drin ar draws sefydliadau cyfan, nid dim ond o fewn y timau hynny sy'n uniongyrchol gyfrifol am fynd i'r afael â thrais a cham-drin.
- Roedd bylchau yn y rhestr o bartneriaid a gynhwyswyd yn y canllawiau, a thynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i gynnwys tai, iechyd meddwl, addysg, cyfiawnder, iechyd cyhoeddus, grwpiau cymunedol, ac undebau llafur; ac i'r partneriaethau statudol presennol gael eu cydnabod yn glir.
- Galwyd yn eang am i union natur rolau fod yn gliriach ac yn fwy pendant, gan wahaniaethu rhwng dyletswyddau strategol a gweithredol, a rhwng rolau statudol a'r rheini sy'n cyfrannu'n unig.
- Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y dylai mesurau atebolrwydd enwi uwch-swyddogion a nodi llwybrau uwchgyfeirio clir, ac roeddent yn ystyried bod datganiad yn cynnwys llofnod a chymeradwyaeth Prif Weithredwyr a Chadeiryddion yn werthfawr.
- Roedd yna deimlad bod angen eglurhad ar strwythurau llywodraethiant, yn enwedig mewn modelau rhanbarthol.
- Canllawiau mwy uniongyrchol ar asesu anghenion, a galw am asesiadau penodol ynghylch trais a cham-drin, sy'n cynnwys elfennau creiddiol gorfodol a lle i fewnbwn goroeswyr.
- Roedd pryderon ynghylch rhannu data, a galwyd am sail gyfreithiol gliriach, sicrwydd o ran GDPR, cytundebau ffurfiol ar gyfer rhannu data, a chydlynu rhanbarthol. Awgrymodd rhai y dylid cysylltu cydymffurfiaeth â chyllid neu arolygu i orfodi dyletswyddau.
- Roedd cefnogaeth eang i graffu a gwerthuso, ond awydd am fesurau cliriach, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gynnwys dangosyddion atal ac ymyrraeth gynnar.
- O ran y Gymraeg, roedd y canllawiau yn cael eu hystyried yn gadarnhaol yn gyffredinol, a galwyd am ymgorffori darpariaeth ddwyieithog mewn gwasanaethau. Nodwyd pryderon ynghylch gallu darparwyr llai i ddarparu gwasanaethau cwbl ddwyieithog.

## Ymatebion fesul cwestiwn

**Cwestiwn 1:**
Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym wedi'u hawgrymu i'r meysydd ym Mhennod 1 sy'n ymwneud â phwrpas y canllawiau a'r dyletswyddau a amlinellir yn y Ddeddf?

**Y farn gyffredinol:**
Roedd cefnogaeth gref a chyson i roi sail statudol i'r canllawiau, gan fod hynny'n cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb hanesyddol, yr atebolrwydd diffygiol a'r amrywioldeb o ran ymrwymiad.

**Y prif themâu:**

Croesawyd y syniad o roi statws statudol i'r canllawiau fel modd o hyrwyddo cysondeb ledled Cymru, ymgorffori trais a cham-drin fel maes cyfrifoldeb gwasanaeth cyhoeddus i bob rhan o'r system, a chryfhau atebolrwydd uwch-arweinwyr. Roedd cefnogaeth eang i roi pwyslais ar atal trais a cham-drin, amddiffyn unigolion, darpariaeth adfer hirdymor ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

Roedd yr ymatebion yn galw'n gyson am iaith gynhwysol, gan ofyn yn benodol am gyfeirio'n glir at ddioddefwyr a goroeswyr o'r ddau ryw, a defnydd cyson o'r term "dioddefwyr a goroeswyr" i gynnwys y rhai sy'n profi camdriniaeth ar hyn o bryd.

Roedd pryderon ynghylch y gallu i gyflawni heb adnoddau ychwanegol, yn enwedig o fewn modelau gweithredu rhanbarthol.  Fodd bynnag, mae'r mater hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Galwyd am roi lle mwy amlwg i drais a cham-drin yn nhirwedd ddeddfwriaethol ehangach Cymru (e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, deddfwriaeth tai, ac ati), yn hytrach nag fel agenda gyfochrog. Mae hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, ond caiff ei ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth ehangach.

---

**Cwestiwn 2:**
O ystyried y rhestr o gamau sydd wedi'u cynnwys i ddatblygu strategaeth, sut ydych chi'n teimlo y gallem wella'r adran hon i sicrhau ei bod yn nodi'r broses ar gyfer paratoi a chyhoeddi strategaethau lleol yn glir?

**Y farn gyffredinol:**
Roedd cefnogaeth eang i'r broses, ond roedd yna deimlad nad oedd awdurdod digonol i'r cyfarwyddyd.

**Y prif themâu:**

Roedd galw cryf am i'r broses gael ei nodi'n eglur, gan gynnwys camau penodol cliriach a threfn atebolrwydd. Gofynnwyd hefyd am i'r gwahaniaeth rhwng gofynion statudol ac arferion da gael ei amlygu.

Gwnaed cais am fwy o eglurder ar y gwahaniaeth rhwng strategaethau lleol a rhanbarthol, ac roedd llawer o blaid modelau rhanbarthol a gefnogir gan gynlluniau gweithredu lleol.

Mynegwyd pryder yn gyson nad oedd y cylchoedd adolygu (y strategaeth genedlaethol, yr etholiadau, yr amserlenni lleol ac ati) wedi'u cyd-alinio, a fyddai'n ei gwneud yn anodd cyflawni'n effeithiol.

Roedd ceisiadau am gysylltiad cliriach rhwng asesiadau o anghenion, blaenoriaethau strategol a phenderfyniadau o ran comisiynu ac adnoddau. Roedd cefnogaeth i gymhorthion gweledol (siartiau llif, mapiau gweithredu neu restrau gwirio, ac ati) fel adnoddau a fyddai'n helpu i sicrhau gweithredu cyson; ac roedd pwyslais cryf ar gyd-greu ochr yn ochr â'r rhai sydd â phrofiad personol yn hytrach na dibynnu ar ymgynghori yn unig.

---

**Cwestiwn 3:**
Beth allem ni ei ychwanegu at yr adran 'ymgorffori VAWDASV yn y ffordd y mae eich sefydliad yn gweithio' i'w gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth ymgorffori VAWDASV yn eu gweithluoedd?

**Y farn gyffredinol:**
Un o'r meysydd consensws cryfaf oedd bod angen i'r canllawiau fod yn fwy clir ac yn haws eu gorfodi.

**Y prif themâu:**

Roedd yn amlwg o sawl ymateb y dylai ystyriaeth i drais a cham-drin gael ei hymgorffori ar draws sefydliadau cyfan, nid dim ond o fewn timau arbenigol, ond y byddai gwneud hynny yn cymryd amser.

Roedd disgwyliad clir y dylai arweinwyr a Byrddau fod yn atebol am y strategaeth ac am gymryd camau i fynd i'r afael â thrais a cham-drin, ac na ddylid gadael y cyfrifoldeb i reolwyr canol.

Galwodd rhai am safonau gofynnol clir ar gyfer hyfforddi'r gweithlu, gan ei gwneud yn orfodol alinio'r hyfforddiant â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a disgwyliadau hyfforddiant haenog (cyffredinol / uwch / arbenigol). Fodd bynnag, mae hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Cydnabu'r ymatebwyr y persbectif cryf o safbwynt y gweithlu, yn enwedig ym maes iechyd, gan dynnu sylw at lefel uchel yr adnoddau y mae gwaith trais a cham-drin yn galw amdani. Roedd pwyslais cryf ar yr angen i warchod amser, capasiti a staffio er mwyn cyflawni'r amcanion yn effeithiol.

Nodwyd bwlch yn y canllawiau yn ymwneud â chyfrifoldebau cyflogwyr i gefnogi staff sy'n profi cam-drin domestig eu hunain.

---

**Cwestiwn 4:**
Pa sefydliadau neu grwpiau, os o gwbl, sydd ar goll o'r rhestr hon yn yr adran partneriaethau a chydweithredu?

**Y farn gyffredinol:**
Neges gref a chyson iawn yn yr ymatebion oedd bod angen cryfhau'r disgwyliadau o ran partneriaethau.

**Y prif themâu:**

Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at fylchau yn y rhestr o bartneriaid, gan gynnwys:

- Gwasanaethau tai a digartrefedd
- Gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau
- Addysg (ysgolion, addysg bellach/addysg uwch), cyfiawnder ieuenctid
- Y gwasanaeth prawf, llysoedd a chyfiawnder troseddol ehangach
- Iechyd cyhoeddus a gwasanaethau brys
- Sefydliadau cymunedol, ffydd ac sy'n rhoi pwyslais ar gydraddoldeb
- Undebau llafur a chyrff proffesiynol

Roedd galw cryf i gydnabod yn benodol strwythurau partneriaeth sydd eisoes yn bodoli (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau diogelu, ac ati) fel mecanweithiau creiddiol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder hefyd bod rhestrau partneriaethau yn gallu bod yn rhy eang heb eglurder ar ddisgwyliadau ymarferol.

---

**Cwestiwn 5:**
Beth sydd angen ei ychwanegu at yr adran hon i egluro rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau a'r partneriaid perthnasol yn effeithiol?

**Y farn gyffredinol:**
Nodwyd yn gyson bod angen cryfhau'r adran ar Rolau a Chyfrifoldebau yn sylweddol.

**Y prif themâu:**

Galwyd yn eang am amlinelliad cliriach o ddyletswyddau strategol o gymharu â dyletswyddau cyflawni gweithredol, ac o gyfrifoldebau statudol o gymharu â rolau sy'n cyfrannu'n unig.

Mynegwyd awydd am eglurder drwy enwi swyddogion atebol; eglurder ar y cyfrifoldebau rhanbarthol o gymharu â'r cyfrifoldebau lleol; ac eglurder ar lwybrau llywodraethiant, adrodd, craffu ac uwchgyfeirio.

Dywedodd ymatebwyr bod iaith amwys ("chi", "disgwylir") yn y canllawiau yn creu rhwystredigaeth, a'u bod am weld gofynion a disgwyliadau mwy cadarn.

Mynegwyd pryder yn gyson am ddosraniad eang yr atebolrwydd mewn modelau gweithredu rhanbarthol, a galwyd am fatrics clir o rolau neu dabl cryno yn nodi cyfrifoldebau penodol gwahanol bobl.

---

**Cwestiwn 6:**
Pa grwpiau o bobl, os o gwbl, sydd ar goll o'r rhestr ac y dylid eu cynnwys, a pham?

**Y farn gyffredinol:**
Roedd cynhwysiant a chroestoriadedd yn bwyslais cryf ymhlith yr ymatebion.

**Y prif themâu:**

Ymhlith y grwpiau y cyfeiriwyd atynt yn aml, fel rhai a oedd ar goll o'r drafodaeth, roedd:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Dynion a bechgyn a oedd yn ddioddefwyr
- Pobl anabl a niwrowahanol
- Mudwyr, grwpiau heb hawl i gyllid cyhoeddus a chymunedau ethnig leiafrifol
- Cymunedau LHDTC+
- Pobl ddigartref
- Goroeswyr sydd wedi gwahanu oddi wrth eu partneriaid a'r rhai nad ydynt yn gallu gadael eto

Ac roedd pwyslais cryf ar bwysigrwydd ymgysylltu y tu hwnt i ymgynghori ffurfiol - roedd llawer o ymatebwyr yn dymuno gweld ymgysylltu clir wrth ddatblygu a gweithredu'r strategaethau o'r cychwyn cyntaf.

Roedd gwrthwynebiad cryf i'r term "defnyddwyr gwasanaeth dilys", gan nodi ei bod yn well ganddynt sôn am bobl â phrofiad personol.

Ategodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ymgysylltu diogel, egwyddorol, cymesur ac sy'n ystyriol o drawma, gan sicrhau cefnogaeth sefydliadau arbenigol.

Yn ogystal, roeddent am weld dibyniaeth fwy amlwg ar Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i sicrhau yr ystyrir pob elfen mewn ffordd systemataidd.

---

**Cwestiwn 7:**
Pa mor uniongyrchol ddylen ni fod wrth nodi'r hyn rydym ni'n disgwyl ei weld mewn Asesiad o Anghenion?

**Cwestiwn 8:**
A fyddai'r canllawiau'n elwa o gynnwys templed ar gyfer Asesiadau o Anghenion?

**Y farn gyffredinol mewn perthynas â'r ddau gwestiwn:**
Roedd consensws cryf ymhlith yr ymatebwyr bod angen cyfarwyddyd cliriach yn y canllawiau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion.

**Y prif themâu:**

Roedd llawer o ymatebwyr o blaid gwneud y canllawiau yn fwy uniongyrchol ac eglur i wella eu hansawdd a'r gallu i gymharu elfennau, ac roedd galw cryf am asesiadau penodol ynghylch trais a cham-drin (yn hytrach na dibynnu ar asesiadau generig).

Soniwyd am bwysigrwydd setiau data gofynnol ac elfennau creiddiol, a chynnwys tystiolaeth ansoddol a llais goroeswyr, ac roedd pwyslais clir ar yr angen am dystiolaeth i lywio'r gweithredu.

Roedd cefnogaeth gref i dempled neu fframwaith cenedlaethol er mwyn cynyddu cysondeb, lleihau dyblygu, a chefnogi awdurdodau llai. Fodd bynnag, nodwyd cafeat gan sawl ymatebydd y dylai fod modd addasu'r templedi, ac y dylent fod yn ddigon hyblyg.

---

**Cwestiwn 9:**
Beth ddylem ei gynnwys yn yr adran hon i fynd ymhellach a / neu i gymell sefydliadau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol? Sut allwn ni wneud hyn?

**Y farn gyffredinol:**
Roedd rhannu gwybodaeth a data yn bryder cyson ymhlith yr ymatebwyr.

**Y prif themâu:**

Galwyd am sicrwydd a mecanweithiau cyfreithiol cliriach o safbwynt GDPR, yn enwedig mewn perthynas â setiau data gofynnol a safonau data, ac amlygwyd yr angen am ganllawiau sy'n meithrin hyder gweithwyr y rheng flaen i rannu data mewn ffordd gyfreithlon.

Roedd cefnogaeth gref i gytundebau ffurfiol ar gyfer rhannu data, a chydlynu rhanbarthol, ac roedd rhwystredigaeth mai anogaeth i gyflawni dyletswyddau rhannu gwybodaeth sydd yna, yn hytrach na gorfodaeth.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cysylltu cydymffurfiaeth â gofynion rhannu data â chyllid, arolygu neu atebolrwydd statudol.

---

**Cwestiwn 10:**
Beth arall ddylem ei gynnwys yn yr adran hon i annog ymgynghori, ymgysylltu a herio priodol wrth ddatblygu strategaethau lleol?

**Cwestiwn 11:**
Pa drefniadau y mae angen i'r canllawiau eu cynnwys i fonitro a gwerthuso eich strategaethau lleol yn effeithiol?

**Y farn gyffredinol mewn perthynas â'r ddau gwestiwn:**
Er bod cefnogaeth eang i graffu, monitro a gwerthuso, roedd llawer yn teimlo nad oedd y manylion yn ddigon penodol.

**Y prif themâu:**

Galwyd am lwybrau clir ar gyfer herio a chraffu annibynnol, gan gynnwys gwell defnydd o'r strwythurau craffu presennol, ac am gyhoeddi'r canlyniadau i sicrhau tryloywder.

Roedd pwyslais cryf ar gael fframweithiau canlyniadau cenedlaethol neu safonedig, ynghyd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol a mesurau canlyniadau clir. Wrth fesur effaith, roedd yr ymatebwyr yn dymuno gweld camau atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu cofnodi, nid y gweithgarwch yn unig.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i adrodd rheolaidd, yn flynyddol fel rheol, a diweddariadau interim.

---

**Cwestiwn 12:**
Pa fesurau atebolrwydd ydych chi'n meddwl y dylem eu hychwanegu i sicrhau bod hyn yn ddigon cadarn?

**Cwestiwn 13:**
A ddylai pob strategaeth leol gael tudalen 'datganiad' sydd wedyn yn cael ei llofnodi gan Brif Weithredwyr a Chadeiryddion y sefydliadau cyfrifol (Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol)?

**Y farn gyffredinol mewn perthynas â'r ddau gwestiwn:**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cael rhyw fath o 'ddatganiad' yn hanfodol.

**Y prif themâu:**

Roedd yr ymatebwyr yn dymuno gweld trefniant sicrwydd allanol ar gyfer cynlluniau gweithredu er mwyn cymell cydymffurfiaeth, ac roedd galw cryf am i enwau uwch-swyddogion cyfrifol gael eu rhestru yn y cynlluniau - a chanlyniadau clir a llwybrau uwchgyfeirio o beidio â chydymffurfio. Roedd llawer yn dadlau mai'r Prif Weithredwyr ddylai gael eu nodi, ac y dylid eu henwi'n benodol, yn hytrach na chyfeirio at ddisgwyliad i arwain yn unig.

Roedd cefnogaeth eang i dudalen datganiad â llofnod, gan y byddai hyn yn cryfhau perchnogaeth yr uwch-swyddogion, ac yn atgyfnerthu'r statws statudol. Cydnabuwyd, fodd bynnag, mai cyfyngedig yw gwerth llofnod heb rym gorfodi ac adnoddau clir.

---

**Cwestiwn 14:**
A fyddai'r canllawiau'n elwa o gynnwys templed ar gyfer strategaethau lleol i gefnogi mwy o gysondeb ledled Cymru?

**Cwestiwn 15:**
Pa gysylltiadau fyddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y canllawiau?

**Y farn gyffredinol mewn perthynas â'r ddau gwestiwn:**
Roedd cefnogaeth eang i sicrhau cysondeb mwy o ran defnyddio templedi, a phwyslais ar eglurder a hyblygrwydd.

**Y prif themâu:**

Galwodd ymatebwyr am dempledi ar gyfer strategaethau, a fyddai'n cyfrannu at gysondeb a sicrwydd, cyhyd â'u bod yn caniatáu hyblygrwydd lleol a rhanbarthol.

Roedd yr ymatebwyr yn ffafrio elfennau creiddiol gorfodol ac adrannau y gellir eu haddasu. Nodwyd y byddent am gael gwybodaeth gyswllt yn seiliedig ar rôl yn hytrach nag enwau unigolion.

---

**Cwestiwn 16:**
Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y [*mater, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ac ati*] ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 17:**
Yn eich barn chi, a ellid fformiwleiddio neu newid y [*mater, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ac ati*] er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Y farn gyffredinol mewn perthynas â'r ddau gwestiwn:**
Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol neu'n niwtral o ran y Gymraeg, ac yn nodi amodau pwysig.

**Y prif themâu:**

Roedd cytundeb eang y gallai'r canllawiau gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg pe baent yn cael eu gweithredu'n dda, a galwyd am ymgorffori darpariaeth ddwyieithog fel arfer safonol wrth gynnig gwasanaethau, a gofalu bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer y Gymraeg yn ymarferol. Cydnabuwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yn gallu cael eu cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunir. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch gallu darparwyr llai i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

---

**Cwestiwn 18:**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

**Y prif themâu a gododd yn gyson:**

Ystyrid bod y canllawiau yn gryfach ar y broses nag ar y canlyniadau, ac roedd pryderon am gyllid a chynaliadwyedd, ynghyd ag am lywodraethiant ac atebolrwydd rhanbarthol.

Roedd awydd i weld trefniadau pontio clir wrth symud o ganllawiau 2018 i'r canllawiau statudol newydd, ac roedd cydnabyddiaeth y byddai'r canllawiau newydd yn gofyn am newid diwylliannol ar draws y system.

Roedd yr ymatebwyr eisiau gweld mwy o bwyslais ar brofiad goroeswyr a darpariaeth adfer hirdymor.

Ar y cyfan, roedd yna alw am dinc mwy awdurdodol er mwyn adlewyrchu disgwyliadau a statws statudol.

## Y Camau Nesaf

Caiff canllawiau diwygiedig eu cyhoeddi maes o law, yn unol â phrotocolau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi Canllawiau Statudol.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am roi o'u hamser i rannu eu sylwadau a'u syniadau. Bydd y gwaith o ddiwygio'r canllawiau statudol drafft yn parhau, mewn ymateb i'r safbwyntiau a nodwyd.

Roedd sawl ymateb yn cynnwys elfennau a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, ac y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Er na fydd y rhain yn berthnasol i'r canllawiau terfynol efallai, byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu strategaeth i'r dyfodol.

## Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr

Isod mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion a oedd yn fodlon i'w manylion gael eu rhannu.

**Sefydliadau**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cats Protection
Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor Sir y Fflint
Grŵp Colegau NPTC
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Canolfan Cefnogi Dioddefwyr Trais a Cham-drin Rhywiol ac Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Safer Merthyr Tydfil (ar ran ardal Cwm Taf Morgannwg)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Unigolion**

Angela Moreton
Johanna Robinson, Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol